# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 19 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Perthynas y Cynulliad â Busnesau

**Q13 Christine Chapman:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu perthynas y Cynulliad ymhellach â busnesau? (OAQ11987)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae trafodaethau'n parhau gyda'r prif sefydliadau busnes a Chyngres Undebau Llafur Cymru gyda'r nod o sefydlu uned cefnogi partneriaid busnes a phartneriaid cymdeithasol. Bydd hynny'n cynorthwyo'r gymuned fusnes i gydweithio'n fwy effeithiol â'r Cynulliad ac asiantaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru a gwneud cyfraniad o ansawdd gwell i'r broses benderfynu. Bydd yr uned honno hefyd yn cynorthwyo wrth gefnogi busnesau i gymryd rhan yn rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae swyddogion o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cynnal trafodaethau gyda phartneriaid busnes a phartneriaid cymdeithasol ynghylch darparu cydgysylltwyr/hwyluswyr ar lefel ranbarthol ac ystyrir cynigion yng nghyfarfod nesaf pwyllgor monitro Amcan 1.

### Brwydro yn erbyn Tlodi yn y Byd Datblygol

**Q14 John Griffiths:** Sut gall y Cynulliad gyfrannu tuag at bolisïau i frwydro yn erbyn tlodi yn y byd datblygol? (OAQ12010)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw polisïau i frwydro yn erbyn tlodi yn y byd datblygol yn fater datganoledig. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'r targed y cytunwyd arno'n rhyngwladol i haneru cyfran y bobl sydd yn byw mewn tlodi enbyd erbyn 2015. Yr wyf i a'm cyd-Aelodau yn cefnogi'r nod hwnnw.

### Gwneud y Cabinet yn fwy Atebol i'r Cyhoedd

**Q15 Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru i wneud ei Gabinet yn fwy atebol i'r cyhoedd? (OAQ11989) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynadleddau Rhyngwladol (Hyrwyddo Cymru)

**Q16 Brian Hancock:** A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu mynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol yn y flwyddyn nesaf er mwyn hyrwyddo Cymru yn y byd ehangach? (OAQ11991) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Cytundeb Partneriaeth (Sir Fynwy)

**Q17 David Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y mae'r cytundeb partneriaeth wedi effeithio ar Sir Fynwy? (OAQ12003)

**Prif Weinidog Cymru:** Nod cynigion 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' yw cynnig buddiannau i bobl Sir Fynwy, a phobl ledled Cymru.

Ers i ni wneud y cytundeb, yr ydym wedi datblygu cynigion radical ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Yr ydym hefyd wedi penodi'r Comisiynydd Plant i Gymru ac yr ydym wedi derbyn

deddfwriaeth i sicrhau bod ganddo fwy o bwerau. Yr ydym yn targedu ein gweithgareddau'n bennaf at ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gyfrwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yr ydym wedi cyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion i blant rhwng pump a saith oed, archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl ifanc dan 25 oed a mynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Yr ydym hefyd wedi dechrau'r broses o lunio'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd.

**'Gwellcymru.com' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'**

**Q18 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf y berthynas rhwng polisïau 'Gwellcymru.com' a'r rhaglen a amlinellir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ11996) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ffurf Tŷ'r Arglwyddi yn y Dyfodol**

**Q19 David Melding:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cymryd camau i sicrhau y cyflwynir yr achos dros gynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru mewn unrhyw drafodaeth ar ffurf Tŷ'r Arglwyddi yn y dyfodol? (OAQ12006)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Roedd adroddiad Wakeham ym mis Ionawr 2000 yn argymell y dylai Tŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd, ddarparu llais uniongyrchol i holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU. Yr wyf yn cefnogi'r egwyddor honno a byddaf yn annog Llywodraeth y DU i'w hymgorffori pan fydd yn cyflwyno cynigion pendant i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi eto yn y dyfodol.

**'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Adolygu Targedau)**

**Q20 Cynog Dafis:** A oes gan Brif Weinidog Cymru gynlluniau i adolygu'r targedau a gynhwysir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12000) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cydbwyllgor y Gweinidogion**

**Q21 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar hynt Cydbwyllgor y Gweinidogion? (OAQ11998) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Polisïau'r Cynulliad ar yr Undeb Ewropeaidd**

**Q22 Alun Cairns:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn mynd ati i lunio polisïau'r Cynulliad ar yr Undeb Ewropeaidd yng ngoleuni'r trafferthion y mae cyrff o'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u cael wrth ymdrin â materion Ewropeaidd? (OAQ12012)

**Prif Weinidog Cymru:** Y Cynulliad sydd yn gyfrifol am ei bolisïau ar yr UE ac yr wyf yn falch o'n rhan yn hynny. Yr ydym yn anelu at weithio'n agos mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill, ond hwy sydd yn gyfrifol am eu polisïau eu hunain. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw anawsterau penodol.

**Gweithredu Ymrwymiadau 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'**

**Q23 Gareth Jones:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd yn ddiweddar i sicrhau bod yr ymrwymiadau a welir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cael eu gweithredu? (OAQ12005) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynadleddau Rhyngwladol (Hybu Cymru)**

**Q24 Geraint Davies:** A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu mynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol yn y flwyddyn nesaf, i hybu Cymru? (OAQ12004)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf gynlluniau penodol i fynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol dros y flwyddyn nesaf, ond yr wyf yn mynychu cyfarfodydd yn Ewrop yn rheolaidd, gyda'm cymheiriaid o lywodraethau rhanbarthol eraill Ewrop a phobl ddylanwadol, uchel eu proffil o fannau eraill. Mae'r ddwy agwedd yn bwysig er mwyn datblygu a chodi proffil Cymru'n fyd-eang, ac mae hyn yn un o flaenoriaethau allweddol y Cabinet.

**Araith y Frenhines**

**Q25 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda chynrychiolwyr Llywodraeth San Steffan ynghylch cynnwys polisïau sydd yn ymwneud yn benodol â Chymru yn Araith nesaf y Frenhines? (OAQ12011)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda Gweinidogion y DU ynghylch blaen raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a sut mae'n berthnasol i Gymru.

**Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000 (Mesurau Newydd)**

**Q26 David Lloyd:** A gyflwynir unrhyw fesurau newydd yn sgîl canfyddiadau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000'? (OAQ11993) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynadleddau Tramor**

**Q27 Rhodri Glyn Thomas:** A fydd Prif Weinidog Cymru yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw gynadleddau tramor yn y flwyddyn nesaf? (OAQ11992) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Partneriaethau gyda Busnesau**

**Q28 Nick Bourne:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn monitro effeithiolrwydd y partneriaethau gyda busnesau a sefydlwyd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ11997)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cyngor Partneriaeth Busnes yn gorff ymgynghorol sydd yn hyrwyddo cydweithio rhwng y Cynulliad a'r gymuned fusnes ym mhob cwr o Gymru. Hwylusir gwaith a systemau gwerthuso'r Cynulliad drwy gyfrwng adroddiadau blynyddol ac mae'r holl gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. O ganlyniad, mae'r cyngor yn agored i gael ei archwilio gan y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad. Caiff sefydliadau busnes hefyd eu hannog i fynegi unrhyw bryderon penodol ynghylch datblygu polisïau i aelodau'r Cabinet, swyddogion a Phwyllgorau Pwnc a Phwyllgorau Rhanbarthol y Cynulliad.